# County Council (C)

Man Cyfarfod
**Council Chamber - County Hall, Llandrindod Wells**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Mercher, 19 Hydref 2016**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad Cyhoeddi

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC83- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

| 2. | COFNODION | CC84- 2016 |
|---|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf a 8 Medi 2016 fel cofnodion cywir.

(Tudalennau 9 - 44)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB | CC85- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant gan Aelodau mewn perthynas â'r eitemau sydd i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD | CC86- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD | CC87- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | NEGES BRIFFIO GAN Y PRIF WEITHREDWR | CC88- 2016 |
|---|---|---|

Derbyn neges briffio gan y Prif Weithredwr.

| 7. | GWERTHUSIAD DRAFFT PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNLLUN POWYS YN UN 2015 - 16 | CC89- 2016 |
|---|---|---|

Ystyried fersiwn drafft Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol Cynllun Powys yn Un 2014 – 15.

(Tudalennau 45 - 160)

| 8. | PROTOCOL AR GYFER CYFRANOGIAD Y CYHOEDD YNG NGHYFARFODYDD Y CYNGOR | CC90- 2016 |
|---|---|---|

Ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.

(Tudalennau 161 - 166)

| 9. | TROSGLWYDDIAD CYFALAF AR GYFER CANOLFAN AILGYLCHU GWASTRAFF O'R CARTREF | CC91- 2016 |
|---|---|---|

Ystyried cymeradwyo trosglwyddiad o dros £500,000 yn y gyllideb.

(Tudalennau 167 - 170)

| 10. | 2018 ADOLYGIAD O ETHOLAETHAU SENEDDOL | CC92- 2016 |
|---|---|---|

Ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.

(Tudalennau 171 - 172)

| 11. | CYNGOR CYMUNED LLANFECHAIN | CC93- 2016 |
|---|---|---|

Ystyried adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.

(Tudalennau 173 - 176)

| 12. | PENODIADAU I BWYLLGORAU | CC94- 2016 |
|---|---|---|

Nodi'r penodiadau canlynol gan y grwpiau gwleidyddol (sydd wedi'u cymeradwy gan y Swyddog Monitro) dan y pŵer dirprwyo cyffredinol a roddodd y Cyngor ar 16 Mai 2013:

Penodi'r Cynghorydd Sir David Jones i'r Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy gan y Gŵp Anwleidyddol yn lle'r Cynghorydd Sir Garry Banks.

Penodi'r Cynghorydd Sir Timothy Van-Rees i'r Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau gan Gynghrair Annibynnol yn lle'r Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe.

Penodi'r Cynghorydd Sir E. Michael Jones i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan Gygnhrair Annibynnol Powys i lenwi sedd ychwanegol ar y Pwyllgor.

Penodi'r Cynghorydd Sir Stephen Davies i'r Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy gan y Gŵp yn lle'r Cynghorydd Sir Peter Harris.

| 13. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD | CC95- 2016 |
|---|---|---|

13.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am y Gwasanaethau Llyfrgell oddi wrth y Cynghorydd Sir Graham Jones**

A fyddai modd i mi gael y ffigyrau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth llyfrgell deithiol (gan gynnwys costau rhedeg y cerbydau a'r staff) am y flwyddyn galendr hon, h.y. o'r 1 Ionawr 2016 hyd at heddiw? Hefyd, a fyddai modd i mi gael y costau ar gyfer blynyddoedd calendr 2014 a 2015 er cymhariaeth?

(Tudalennau 177 - 178)

13.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am yr Amgylchedd a Chyanliadwyedd oddi wrth y Cynghorydd Sir Gwilym Williams**

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad sawl safle ym Mhowys sydd wedi'i ddatblygu'n rhannol at ddefnydd diwydiannol. Mae un o'r safleoedd hyn yn Abermiwl, lle gafodd y ffordd ei thorri a'r seilwaith ei osod sawl bwlyddyn yn ôl. Rwy'n deal nawr y bydd y safle yma'n cael ei ddatblygu ymhellach yn y dyfodol agos ar gyfer ailgylchu. A yw'r aelod porttfolio'n gallu gadarnhau a yw hyn yn gywir ai peidio. Hefyd a all yr aelod portffolio ddweud wrthyf i a'r Cyngor pa bryd y bydd hyn yn debygol o gael ei gwblhau, a pha fath o ailgylchu fydd yn digwydd yno?

(Tudalennau 179 - 180)

13.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am yr Amgylchedd a Chyanliadwyedd oddi wrth y Cynghorydd Sir Gwilym Williams from County Councillor Gwilym Williams**

With reports in the local paper that the council has over spent by about £5.5million within the first few months of its budget are worrying.
Can the portfolio holder for finance give assurances to me and the Council, that he has a grip on the finances of Powys and we will be within budget by the end of this financial year?

(Tudalennau 181 - 182)

13.4. **Cwestiynau i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am Gomisiynu a Chaffael a'r Aelod Portffolio chyfrifoldeb am Ofal Cymdeithasol oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

A wnaiff y Cabinet estyn llongyfarchiadau i aelod o'm hetholaeth, Rob Davies, ar ennill Medal Aur yn y Gemau Paralympaidd y Rio, a manylu ar sut y maen nhw'n defnyddio chwaraeon i helpu i wella iechyd a llesiant ym Mhowys?

(Tudalennau 183 - 186)

13.5. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am Eiddo, Adeiladau a Thai oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Rwyf wedi codi nifer o faterion gyda'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am Dai ac uwch swyddogion ynghylch rheolaeth ar stoc dai'r Cyngor a'r stadau yn Ward Sant Ioan, ac wedi derbyn sicrhad y byddant yn gwella pethau ac yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodais.

A fydd yr Aelod Portffolio nawr yn rhoi manylion y gwelliannau y gallaf ddisgwyl eu gweld, a'r pryderon y bydd hi'n mynd i'r afael â nhw, yn ogystal â dyddiadau ar gyfer y rhain?

(Tudalennau 187 - 188)

13.6. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am Addysg oddi wrth y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas**

A all yr aelod portfolio gadarnhau pryd y rhoddwyd hyfforddiant penodol i aelodau lleol ddiwethaf ar gyfer eu rôl fel llywodraethwyr yr AALl?

(Tudalennau 189 - 190)

13.7. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am Addysg oddi wrth y Cynghorydd Sir Darren Mayor**

Fis Mehefin 2014 comisiynodd yr adran addysg adroddiad ar Hyfywedd

ariannol Ysgolion Uwchradd.
PWC oedd yn gyfrifol am yr adroddiad, ac fel rhan o'u hastudiaeth, fe wnaethant gyfweld bwrsariaid/rheolwyr bsunes pob ysgol uwchradd.
Mae Atodiad 1 – sylwadau ar ysgolion unigol –yn cynnwys tablau manwl am bob ysgol uwchradd, yn amlinellu gwybodaeth ariannol pob ysgol o 2011/12 i 2017/18.
Mae llinell eglur iawn yn amlinellu'r costau Cludiant a'r defnydd o gyllideb yr ysgol.
Mae'n gwbl eglur beth oedd y sefyllfa a'r rhagolygon ar gyfer gwariant pob ysgol o'i chyllideb.
Rwy'n siwr y gwnaethoch chi, ynghyd â'ch Pennaeth Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr Addysg ddarllen a thrafod yr adroddiad yma cyn ei gyhoeddi.
Os oedd modd Ysgol Uwchradd Llanfyllin o ddefnyddio cyllideb yr ysgol yn broblem, pam na chodwyd y mater bryd hynny?

(Tudalennau 191 - 194)

13.8. **Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth y Cynghorydd Sir Darren Mayor**

Annwyl Arweinydd,

Ar 13 Medi, ysgrifennias yr e-bost at y Swyddog Monitro ac roedd copi ar gael i chi hefyd:

*Dear Clive,*

*Having further considered Cabinet's decision, I have taken some advice and the following points have been raised with me. I would appreciate your comments and I await your response.*

1. *With reference to the Statutory Instrument 2005 No. 2914 (W.211), Government of Maintained Schools (Wales) Regulation 2005 (SI 2005), I would be grateful if you could provide me with references, in legislation, that empowered Cabinet to reach its decision and have primacy over the rights and procedures as laid down in the above legislation, SI 2005.*

2. *On Friday 22nd July 2016 Cabinet resolved to suspend 4 LEA governors from Llanfyllin High School for varying periods. Under the SI 2005 Regulation 7 (1) and 27 (1) Powys County Council only has the power to appoint and remove LEA governors. Under the SI 2005 the only body empowered with the right to suspend governors is the governing body.*

3. *I understand that the High school have been instructed not to issue the suspended Governors with any papers – minutes and Agendas – with regards to any governing board meetings. Under the SI 2005 Regulation 49 (4)(a) a suspended governor is afforded the right to receive all papers that will be considered at a governing body meeting*

*Whilst I appreciate that there are numerous regulations pertaining to the management of schools there will be few that have primacy over the SI 2005 and schools' governance.*

*Therefore, as a matter of urgency, I request that you provide references in legislation, taking primacy over the SI 2005, allowing Cabinet to suspend and deny governors rights as stated above.*

*As this will have been advised to Cabinet during the appeals process I believe that it is reasonable to place a 5 working day limit on providing this information. If you are unable to provide this evidence in this timescale I will assume that it does not exist and take action to address the fact that Cabinet has acted beyond its authority and denied rights conferred on governors by law. I will, in turn, advise Llanfyllin High School that the Authority has acted beyond its power*

*Kind regards*

*Darren*

Ni dderbyniais ateb gan y Swyddog Monitro ac ni chafwyd cydnabyddiaeth I'r e-bost hwn nes i mi ysgrifennu eto ar 20 medi – ac fe gawsoch chithau gopi o'r e-bost hwn hefyd – pan atebodd gyda'r neges e-bost ganlynol:

*Dear Darren*
*Thank you for both emails.*
*I shall respond in detail to the points that you have raised, but in general the person/ body who have appointed a governor have the ability the remove or suspend that governor. As such you and the other 2 LEA governors remain suspended and are not able to participate in the affairs of the GB until after the suspension has ended.*
*Regards*
*Clive Pinney*

Ysgrifennais unwaith eto a siaredais ag ef yn uniongyrchol, gan ofyn iddo anfon copi ataf o'r union offerynnau statudol â blaenoriaeth dros yr Offerynnau Statudol rwyf wedi'u dyfynnu, yn ogystal â thros y cyngor a roddwyd gan Lywodraethwyr Cymru a ddywedodd yn benodol wrth Is-gadeirydd y Corff Llywodraethu yn Llanfyllin mai'r unig gorff â'r grym i wahardd llywodraethwyr yw Corff Llywodraethu'r ysgol ei hun.
Rwy'n dal i aros am ateb.
O ganlyniad, gan eich bod yn gwbl gyfarwydd â'r sefyllfa, a chi fel Arweinydd sydd wedi gweinyddu'r gwaharddiadau a roddwyd, a wnewch chi egluro i mi pa statudau/rheoliadau sydd â blaenoriaeth dros y cyngor a roddwyd gan Lywodraethwyr Cymru a'r Offerynnau Statudol rwyf wedi'u dyfynnu? Diolch yn fawr.

(Tudalennau 195 - 196)

13.9. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas**

Fis Mehefin, comisiynodd yr adran addysg adroddiad i hyfywedd ysgolion uwchradd.
Lluniwyd yr adroddiad gan PWC.
Mae Atodiad 1 – Sylwadau ar ysgolion unigol – yn cynnwys tablau sy'n

amlinellu gwybodaeth ariannol benodol am bob ysgol o 2011/12 hyd at 2017/18.
Mae llinell eglur yn dangos costau cludiant a'r defnydd o gyllideb yr ysgol gan bob ysgol sy'n darparu cludiant i'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.
Mae'n gwbl eglur ar beth yr oedd pob ysgol yn bwriadu gwario eu cyllideb.
Fel Arweinydd roeddech chi wedi darllen a deall yr adroddiad, rwy'n siŵr.
Gyda'r atodiad oedd yn amlinellu sut yr oedd pob ysgol unigol yn defnyddio cyllideb yr ysgol i dalu am gludiant, pam na wnaethoch chi godi mater defnydd Ysgol Uwchradd Llanfyllin o'r gyllideb ar gludiant ar ôl 2011/2012 – ar ôl gweithredu Rheoliad 5.2 yn llawn?

(Tudalennau 197 - 198)

13.10. **Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth y Cynghorydd Sir William Powell**

Yn dilyn trafodaethau Arweinydd y Cyngor a minnau gyda Chomisiynydd Heddlu a Throseddu newydd Dyfed Powys, Dafydd Llewelyn, ynglŷn â pha waith sy'n cael ei wneud gan Gyngor Sir Powys mewn partneriaeth â Dyfed Powys i fonitro achosion o anoddefgarwch a throseddau casineb yn ein cymunedau? Ymhlith yr enghreifftiau rwy'n ymwybodol ohonyn nhw yn ystod y misoedd diwethaf yn ne'r Sir mae blino plant gwladolion yr UE trwy ddweud "ewch adref" ar ôl canlyniad Brexit, a difrod troseddol i safleoedd masnachol. Gan fod angen i ni gadw ein cymunedau yma ym Mhowys yn ddiogel, yn oddefgar ac yn groesawgar, sut y mae Cyngor Sir Powys yn hyrwyddo hyn o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a luniwyd yn ddiweddar, er mwyn hybu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

(Tudalennau 199 - 200)

| 14. | PRESENTATION BY THE CHIEF FIRE OFFICER | CC96- 2016 |
|---|---|---|

Presentation by the Chief Fire Officer Chris Davies and Deputy Chief Fire Officer Mick Crennell.

14.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd oddi wrth y Cynghorydd Sir William Powell**

Pa ymdrechion y mae Cyngor Sir Powys yn eu gwneud I efelychu arfer da prif awdurdodau lleol eraill Cymru i ddarparu gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu'n effeithiol? Yn anad dim, a roddwyd unrhyw ystyriaeth i brosiect peilot ar gyfer casgliad gwastraff gwyrdd y codi tâl amdano, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn Sir Fynwy? Hefyd, o ystyried y manteision i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n hen ac yn fregus, a'r rheiny nad oes ganddynt fawr o le storio, a fydd yr aelod portffolio'n ystyried cynnal cynllun peilot ar gyfer troliau ar gyfer pentyrru blychau ailgylchu rhwng y dyddiau casglu? Mae cynllun o'r fath wedi bod yn boblogaidd ac yn effeithiol yn Wrecsam ac ym Mlaenau Gwent.

(Tudalennau 201 - 202)

**Yn dilyn y cyfarfod, bydd yr Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am Gyllid yn cynnal sesiwn briffio ar y gyllideb**